**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher 05 Chwefror 2003 |
| Amser: | 9.15am hyd 12.25pm |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

**Yn bresennol:**

***Aelodau:***

| | |
|---|---|
| Richard Edwards, Cadeirydd | Preseli Sir Benfro |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| (ac eithrio absenoldeb byr yn ystod eitem 4 pan oedd yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fel dirprwy) | |
| David Davies | Mynwy |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Sue Essex | Gogledd Caerdydd |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

***Swyddogion:***

| | |
|---|---|
| Martin Evans | Cyfarwyddwr yr Adran Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd |
| Kay Powell (eitem 2) | Pennaeth yr Is-adran Gynllunio |

| | |
|---|---|
| Robin Shaw (eitem 2) | Y Cyfarwyddwr Trafnidiaeth |
| Keith Bush (eitem 3) | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |
| Bob Evans (eitem 3) | Yr Is-adran Gynllunio |
| Denzil Jones (eitem 4) | Pennaeth yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |
| ***Yn bresennol:*** | |
| Chris Austin (eitem 4) | Awdurdod Rheilffyrdd Strategol |
| Cedric Pierce (eitem 4) | Awdurdod Rheilffyrdd Strategol |
| Jonathan Melsom (eitem 4) | Awdurdod Rheilffyrdd Strategol |
| ***Ysgrifenyddiaeth:*** | |
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau, y rhai a oedd yn bresennol ac aelodau o'r cyhoedd i'r Pwyllgor. Daeth ymddiheuriadau i law wrth Val Lloyd.

1.2 Hysbyswyd y Pwyllgor o'r newidiadau canlynol i'w raglen waith:

- ystyried effeithiolrwydd y Cynllun Datblygu Cynaliadwy - wedi'i symud i 26 Mawrth;
- yr adroddiad ar weithredu Deddf CROW - wedi'i symud i 26 Chwefror;

- cyflwyniad gan y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur – wedi'i ychwanegu ar 26 Chwefror.

**Eitem 2: Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd** - EPT-02-03 (p 1)

2.1 Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau ar adroddiad y Gweinidog, a dyma oedd y prif bwyntiau a drafodwyd:

**Cefn Gwlad**

- Y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy – pryder am yr oedi wrth gofrestru tir.

Gofynnodd Aelodau hefyd a oedd hawliau tramwy yn effeithio ar hawl pobl i fod yn rhan o gynllun ffermio organig y Cynulliad Cenedlaethol. Cytunodd y Gweinidog y byddai'n trosglwyddo'r ymholiad i'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig.

**Diogelu'r Amgylchedd**

- Cyngor Prydain-Iwerddon (Amgylchedd) – cefnogaeth i rannu gwybodaeth ac arferion gorau ar reoli gwastraff gyda gweinyddiaethau ynysoedd eraill ac i godi pryderon ynglyn â Sellafield;

- Rheoli Gwastraff – galw am gymhellion ariannol er mwyn annog cynhyrchwyr a manwerthwyr i leihau gwastraff ac ailgylchu, ac i'r Cynulliad Cenedlaethol ddangos arferion gorau yn ei adeiladau ei hunain;

- Ymgyrch cewynnau go iawn – cymharu effeithiau cewynnau go iawn a chewynnau papur ar yr amgylchedd.

**Cynllunio**

- Cyflenwi tywod a graean – peth pryder ynghylch yr effaith ar werth tir heb ganiatâd cynllunio mewn ardaloedd wedi'u diogelu ar gyfer echdynnu, ond lle nad oedd sicrwydd y byddai echdynnu'n digwydd.

- Mewn ymateb i ymholiad, cytunodd y Gweinidog y byddai'n rhoi copi o'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer Helwick Bank yn llyfrgell yr Aelodau. Gall Aelodau Seneddol unigol wneud sylwadau ar y cynnig ac ar hyn o bryd dylent gael eu cyflwyno i'r datblygwr. Ni fyddai'n briodol i'r Pwyllgor ei drafod oherwydd roedd yn rhaid i'r Gweinidog wneud penderfyniad ffurfiol ar y cais dan y weithdrefn "Barn y Llywodraeth".

**Trafnidiaeth**

- Diogelwch ar y Ffyrdd – rhoddwyd pwys cymharol ar leihau nifer y bobl sy'n cael eu hanafu wrth gynnal dadansoddiadau cost/mantais ar gyfer cynlluniau ffyrdd arfaethedig;

- Rheilffyrdd – cadarnhad y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn talu costau cyfalaf y gwelliannau i linell Bro Morgannwg gyda'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol (SRA) yn darparu cyllid refeniw. Byddai cyllid cyfalaf ac arian refeniw yn cael eu darparu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Rheilffordd Dyffryn Ebwy a byddai'r SRA yn ariannu gwasanaethau ychwanegol ar linellau Aberdâr a Chalon Cymru, yn dilyn penderfyniad yr SRA i wneud i ffwrdd â'r Cynllun Partneriaeth Teithwyr Rheilffyrdd;

- Grant Trafnidiaeth – croeso i gyllid ar gyfer prosiectau diogelwch ar y ffyrdd a datblygu

cynaliadwy, a galw am fwy o gymorth ar gyfer cynlluniau lleihau swn. Nodwyd na fyddai mwy o arian ar gyfer system trafnidiaeth gyflym personol Caerdydd, gan y byddai angen rhoi ystyriaeth i astudiaethau cysylltiedig cyfredol.

**Gweithredu:**

- *Y Gweinidog i drosglwyddo ymholiad ynglyn ag a yw hawliau tramwy yn effeithio ar hawl pobl i fod yn rhan o gynllun ffermio organig y Cynulliad Cenedlaethol i'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig;*

- *Y Gweinidog i roi copi o'r Astudiaeth o Effaith Arfordirol ar gyfer Helwick Bank yn llyfrgell yr Aelodau.*

**Eitem 3: Diwygio gweithdrefnau'r Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio**

- EPT-02-03 (p 2)

3.1 Gofynnodd y Gweinidog am farn y Pwyllgor ar y diwygiadau arfaethedig i weithdrefnau Pwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio (PDC) sydd â'r nod o gyflymu'r broses cymryd penderfyniadau, a gwneud y broses o sefydlu pwyllgorau yn fwy hyblyg.

3.2 Canolbwyntiwyd ar:

- Y Ddeddf Hawliau Dynol – a oedd y ffaith bod Gweinidog, a oedd wedi galw cais i mewn neu a oedd wedi adfer apêl, yn cyfrannu at Bwyllgor Penderfyniadau Cynllunio, yn gyson â'r hawl dan y Ddeddf Hawliau Dynol i wrandawiad annibynnol. Nodwyd bod Ty'r Arglwyddi yn ddiweddar wedi datgan bod y weithdrefn yn Lloegr, lle'r oedd penderfyniadau yn cael eu cymryd gan un Gweinidog, yn gyson â'r Ddeddf, gan y gallai unrhyw benderfyniad yn y pen draw gael ei herio gan y Llysoedd;

- Cwrdd yn breifat – a ddylai Pwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio gwrdd yn breifat. Nodwyd y byddai achos wedi bod yn destun ystyriaeth mewn Ymchwiliad Cyhoeddus cyn iddo gael ei ystyried gan bwyllgor. Er bod ystyriaethau Pwyllgorau Penderfyniadau Cyhoeddus yn cael eu cynnal yn breifat, roedd y rhesymau am eu penderfyniadau yn cael eu cyhoeddi;

- Mân-achosion – roedd peth pryder na fyddai mân-achosion yn y dyfodol yn cael eu trosglwyddo i'r Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio am mai nifer fach ohonynt oedd.

3.3 Roedd Aelodau'n teimlo y dylai gweithdrefn arloesol y Cynulliad Cenedlaethol o gymryd penderfyniadau ar sail golegaidd gael fwy o gyhoeddusrwydd, yn gyffredinol. Un arwydd o lwyddiant y trefniadau hyn oedd y ffaith na chafwyd unrhyw her gyfreithiol lwyddiannus i un o

benderfyniadau Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio.

3.4 Cytunodd y Pwyllgor y dylai cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 35, fel y'i nodwyd yn y papur, gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Busnes.

**Eitem 4: Gwasanaethau Rheilffyrdd yng Nghymru**

4.1 Roedd yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol (SRA) wedi'i wahodd i nodi prif elfennau ei Gynllun Strategol ar gyfer 2003, a gyhoeddwyd y flwyddyn flaenorol, ac i ateb cwestiynau am y toriadau diweddar o ran gwasanaethau trenau yng Nghymru.

4.2 Amlinellodd Chris Austin brif elfennau strategaeth yr SRA ar gyfer gwella rheilffyrdd y DU: gwella perfformiad a mynd i'r afael â'r costau cynyddol. Roedd y Cynllun Strategol yn cynnwys asesiad manwl o lwybrau, ac roedd cysylltiad rhyngddynt â chynlluniau cenedlaethol a lleol. Roedd canlyniadau tymor byr yn seiliedig ar lefelau cyfredol y setliad ariannol, gyda chanlyniadau tymor canolig a thymor hir yn dibynnu ar ganlyniadau Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2004. Roedd perfformiad ar draws y rhwydwaith rheilffyrdd bellach yn cael ei adolygu bob pythefnos gan y 'Grwp o Chwech' - yr SRA, yr Association of Train Operating Companies, y cwmni cludiant EWS, y Rheoleiddiwr Rheilffyrdd, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Network Rail - gyda chydfyrddau'n gweithredu ar draws y rhwydwaith.

4.3 Roedd pwysau ariannol, gan gynnwys cwtogiad yn yr arian y mae'r Llywodraeth yn ei roi i'r SRA, wedi arwain at gamau brys gan gynnwys gohirio prosiectau a gwneud i ffwrdd â rhai grantiau dewisol. Hefyd, roedd gwasanaethau wedi dod i ben er mwyn gwneud defnydd mwy effeithiol o'r rhwydwaith gan gynnwys gwasanaethau Traws Gwlad Virgin sy'n effeithio ar Dde Cymru. Nod y newidiadau oedd adfer sefydlogrwydd gwasanaethau a chynyddu capasiti ar y rhwydwaith. Byddai'r fasnachfraint Cymru a'r Gororau newydd yn seiliedig ar y gwasanaethau a'r cyfleusterau presennol, yn fras, ond roedd yr SRA hefyd wedi gwahodd ymgeiswyr i amlinellu gwasanaethau y gellid eu darparu gyda thoriadau o 10% ac 20% mewn lefelau cymhorthdal, ynghyd â chynigion ar gyfer gwella. Fodd bynnag, roedd buddsoddiad wedi'i ddiogelu'n cynnwys Platfform 4 yn Swindon, a Chyffordd Filton. Byddai trenau newydd ar gael ar gyfer y Gogledd, ac yn cael eu defnyddio i ddarparu cymaint o wasanaethau ag sy'n ymarferol rhwng y Gogledd-orllewin a Llundain. Byddai'r gwaith o uwchraddio Prif Linell Arfordir y Gorllewin hefyd o fudd i'r Canolbarth a'r Gogledd. Roedd yr SRA hefyd wedi dod i gytundeb â Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y ffordd ymlaen ar gyfer nifer o gynlluniau, fel Bro Morgannwg.

4.4 Canolbwyntiwyd yn ystod y drafodaeth ar y pryderon a ganlyn:

- Hyder y cyhoedd - ar y cyfan, roedd neges yr SRA yn ymddangos yn negyddol, a allai danseilio hyder y cyhoedd mewn trafnidiaeth gyhoeddus. Roedd Aelodau'n teimlo'n gryf y dylai'r gwasanaeth tren yng Nghymru fod yn agored i bawb, nid yn unig i'r rheini sy'n

byw mewn canolfannau trefol ac na ddylai ystyriaethau masnachol gael mwy o sylw nag ymrwymiad y Cynulliad i gynhwysiant cymdeithasol;

- Blaenoriaethau ar gyfer Cymru - diffyg blaenoriaethau i Gymru yn y Cynllun Strategol a phryderon y byddai gwelliannau mewn rhannau eraill o'r DU, megis prif linell Arfordir y Gorllewin a oedd wedi cael ei rheoli'n wael, yn cael eu hariannu ar draul gwelliannau yng Nghymru ac ardaloedd tebyg sy'n ddibynnol am gymorth, er enghraifft, o'r Gronfa Partneriaethau Teithwyr Rheilffyrdd;

- Ymgynghori - diffyg ymgynghori â'r Cynulliad Cenedlaethol cyn y toriadau diweddar mewn gwasanaethau yng Nghymru. Gofynnodd Aelodau am farn Aelod Bwrdd yr SRA dros Gymru. Ailfynegwyd eu cefnogaeth i'r syniad o roi'r pwer i'r Cynulliad gyfeirio'r SRA mewn perthynas â masnachfraint Cymru a'r Gororau;

- Masnachfraint Cymru a'r Gororau - nid oedd unrhyw sicrwydd y byddai'r amserlen ar gyfer masnachfraint Cymru a'r Gororau yn cael ei bodloni. Roedd Aelodau wedi'u synnu bod ymgeiswyr wedi cael eu gwahodd i gynllunio ar sail toriadau o 10% ac 20% mewn cymhorthdal, ac roeddent yn teimlo'n gryf na ddylid gwneud iawn am y diffyg drwy godi prisiau;

- Cyllid - diffyg tryloywder ynglyn â lefel y gwariant ar reilffyrdd yng Nghymru, am nad oedd y ffigurau yn llygad y cyhoedd, a diffyg eglurder o'r herwydd ynglyn â'r ffordd y byddai gostyniadau o 10% ac 20% mewn cymhorthdal ar gyfer Cymru a'r Gororau yn cael eu cyfrif. Esboniodd yr SRA bod y gwaith ar hyn o bryd wedi'i rannu rhwng Grwp National Express a First Group fel gweithredwyr rhannau o'r fasnachfraint. Byddai'r ffigurau ar gael ar ôl i'r fasnachfraint newydd gael ei sefydlu'n iawn.

4.4 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn siomedig iawn gyda'r datblygiadau diweddar ac anogodd yr SRA i ddangos ymrwymiad i wella gwasanaethau trenau yng Nghymru.

**Eitem 5: Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd** - EPT-02-03 (p 3)

5.1 Er gwybodaeth oedd yr eitem hon, a gofynnwyd i Aelodau anfon unrhyw gwestiynau a allai fod ganddynt i'r Gweinidog er mwyn iddynt gael eu hateb y tu allan i'r Pwyllgor.

**Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod ar 16 Ionawr 2003** - EPT-01-03 (mins)

6.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2003.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

7.1 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor am 9.15am ddydd Mercher 26 Chwefror yng Nghynulliad

Cenedlaethol Cymru.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau Chwefror 2003**